# Deddf Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) 2018

**2018 dccc 5**

*Gorfodi*

**20 Eiddo a gyfeddir: digolledu**

(1) Caiff person ("P") a chanddo fuddiant mewn unrhyw beth y mae swyddog awdurdodedig i awdurdod lleol wedi cymryd meddiant ohono o dan adran 17(1)(c) ("eiddo a gyfeddir") wneud cais drwy gŵyn i unrhyw lys ynadon i gael ei ddigolledu.

(2) Mae is-adran (3) yn gymwys os yw'r llys, ar gais o dan yr adran hon, wedi ei fodloni—

(a) bod P wedi dioddef colled neu ddifrod oherwydd bod y swyddog awdurdodedig wedi cymryd meddiant o'r eiddo a gyfeddir, neu ei gadw, o dan amgylchiadau pan nad oedd yn angenrheidiol gwneud hynny at ddiben canfod a oedd trosedd o dan adran 2 wedi ei chyflawni, a

(b) na ellir priodoli'r golled neu'r difrod i esgeulustod neu ddiffyg P.

(3) Caiff y llys orchymyn i'r awdurdod lleol ddigolledu P.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 20 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 28(2)**

**I2** A. 20 mewn grym ar 2.3.2020 gan O.S. 2020/175, **rhl. 2(b)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) 2018, Adran 20.